

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith o'r enw Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymau dros yr arafu yn y gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy ers 2015, a sut y bydd yr argymhellion o'r gwaith ymchwil manwl yn mynd i'r afael â hyn.

Ymateb: Derbyn

Y prif reswm dros yr arafu yn y gwaith datblygu yw agwedd Llywodraeth y DU at y drefn Contract ar gyfer Gwahaniaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul a gwynt ar y tir. Roedd hyn yn golygu nad oedd datblygwyr yn cael y diogelwch a oedd yn eu cefnogi i gael gafael ar gyfalaf datblygu na phenderfyniadau buddsoddi. Roedd diwedd y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan wedi cael yr un effaith ar yr hyfywedd ariannol i fynd â datblygiadau llai rhagddynt. Mae datblygiadau llai yn fwy addas i ddatblygwyr anfasnachol sydd eisiau cynnal datrysiadau ynni lleol.

Rhywbeth arall yng Nghymru'n benodol a gafodd effaith sylweddol ar y biblinell prosiectau oedd yr ymchwiliad cyhoeddus cyfun hir, a'r penderfyniad hwyr, ynghylch pum fferm wynt ar y tir a llinell bŵer uwchben gysylltiedig yng nghanolbarth Cymru.

Mae nifer o'r rhwystrau a'r cyfyngiadau wedi newid dros y cyfnod ers 2015. Ynni gwynt ar y tir a PV solar yw'r ffordd rataf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy erbyn hyn. Mae nawr angen cymorth wedi'i neilltuo drwy'r broses Contract ar gyfer Gwahaniaeth i gyflwyno prosiectau ynni'r tonnau a'r llanw. Mae'r penderfyniad ynghylch y Tariff Cyflenwi Trydan yn dal i effeithio ar hyfywedd prosiectau ynni dŵr bach newydd. Er bod rhagor o gysyniadau ynni wedi cael eu datganoli, rydym o'r farn y dylid eu datganoli'n llawn heb derfyn uchaf, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch y llinellau uwchben.

Roedd y Gwaith Ymchwil Manwl i ynni adnewyddadwy yn canolbwyntio ar archwilio'r rhwystrau presennol a'r cyfleoedd i gyflymu'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Yn ôl datblygwyr prosiectau, cyfyngiadau'r grid a threfniadau cydsynio oedd y prif rwystrau a oedd yn cyfyngu ar ddatblygu ar raddfa fawr. Bydd prosiect Grid Ynni Sero Net Dyfodol Cymru a'n gwaith cynllunio ynni yn rhoi rhagor o dystiolaeth ynghylch y grid sydd ei angen ar Gymru wrth inni weithio gydag Ofgem a dylanwadu arno i gefnogi buddsoddiad yn y grid a chefnogaeth ar gyfer datrysiadau arloesol. Mae ein cyfres o ymyriadau'n ceisio mynd i'r afael â'r broses, yr adnoddau a'r dystiolaeth ategol sydd eu hangen i wneud penderfyniadau cydsynio amserol.

Fodd bynnag, nid oes fawr o werth mewn hyrwyddo datblygiadau i Gymru fod yn allforiwr net o ynni adnewyddadwy os na chawn unrhyw fudd o'r datblygiadau. Felly, mae llawer iawn o'r argymhellion yn mynd i'r afael â rhwystrau penodol i sicrhau bod ein dinasyddion, ein cymunedau, ein sector cyhoeddus a'n busnesau yn gallu chwarae rhan weithredol yn y gwaith o adeiladu system ynni'r dyfodol drwy ranberchnogaeth a pherchnogaeth leol a datblygu cadwyni cyflenwi lleol, cryf.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu manwl sy'n nodi sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â phob un o argymhellion y gwaith ymchwil manwl, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at weithredu'r argymhellion yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, ac ymrwymo i adroddiadau cynnydd bob chwe mis wedi hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae argymhellion y Gwaith Ymchwil Manwl yn cynnwys camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Cadarnhawyd bod tri o'r argymhellion i'w cwblhau yn 2022: cynnal adolygiad o dystiolaeth a chyngor cydsynio (argymhelliad 7); y canllawiau ar ranberchnogaeth, (argymhelliad 17); a datblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net (argymhelliad 19). Disgwylir cwblhau nodi meysydd adnoddau strategol morol (argymhelliad 8) yn 2023; a chynllun ynni i Gymru yn 2024 (argymhelliad 2).

Mae'r argymhellion eraill yn rhan o gynlluniau tymor hirach a bydd rhai, fel argymhelliad 10, yn cael eu cwblhau eleni ond yn arwain at gamau gweithredu pellach.

Mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar draws ystod o argymhellion, er bod heriau sylweddol o hyd mewn meysydd eraill wrth inni geisio mynd i'r afael â rhwystrau sydd â gwreiddiau dyfnion. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb yn ôl thema.

Mae'r argymhellion cychwynnol ar **Strategaeth (argymhellion 1-4)** i gyd yn symud ymlaen gyda cherrig milltir a gwblhawyd yn ddiweddar yn cynnwys:

- penodi Catapwlt Systemau Ynni i arwain y gwaith o weithredu ein Cynlluniau Ynni Ardal Leol;
- cyhoeddi ein [cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid](#) i gefnogi rhagor o ymgysylltu ynghylch Sero Net a newid ymddygiad;
- dechrau'r broses o benodi arbenigwr annibynnol i'n helpu i ddatblygu ein Strategaeth Gwres;
- y gwaith parhaus i ddatblygu iteriad nesaf ein Rhaglen Cartrefi Clyd; ac
- ymgynghoriad a gynhelir yn nes ymlaen eleni ynghylch ein hadolygiad o dargedau ynni adnewyddadwy, yn unol â'r ymrwymiad yn Sero Net Cymru.

Er bod y **Grid (argymhellion 5-6)** yn faes lle rydym yn disgwyl i'r cynnydd gymryd peth amser oherwydd cymhlethdod y materion dan sylw sy'n peri rhai heriau, rydym yn gweld rhywfaint o gynnydd wrth inni ymgysylltu ag Ofgem wrth gynllunio ar gyfer grid sero net, gan gynnwys drwy ein [Prosiect Grid Ynni'r Dyfodol](#). Rydym yn parhau i weithio gydag aelodau gwaith ymchwil manwl i fireinio cwmpas Pensaer Systemau Ynni Cymru a'r opsiynau a fydd gan y Pensaer Systemau i ymgysylltu ag Ofgem gyda'n gweledigaeth ar gyfer **Arloesi (21)**.

Mae'r argymhellion ynghylch **Cydsynio a Thrwyddedu (7-9)** yn dod yn eu blaenau'n gyson gyda thrafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatrys problemau sy'n ymwneud ag adnoddau, yn enwedig eu Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môn sydd bellach wedi sicrhau cyllid priodol, ond mae trafodaethau ehangach ynghylch adnoddau ac alinio'n parhau. Yn y cyfamser, mae'r gwaith o fapio Ardaloedd Adnoddau Strategol morol yn parhau yn unol â'r bwriad, a disgwylir i'r allbynnau gael eu cyflawni ym mis Hydref a dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu opsiynau i Lywodraeth Cymru eu hystyried cyn bo hir ynghylch pwerau cynghori ar y môr. Rydym wedi datgan ein huchelgais i weld Ystad y Goron yn cael ei datganoli ac wrth inni fwrw ymlaen â'r achos rydym yn parhau i weithio'n agos gydag Ystad y Goron i siapio gofynion y gadwyn gyflenwi ar gyfer rowndiau prydlesu yn y Môr Celtaidd yn y dyfodol.

Mae'r argymhellion ynghylch **Cyllid (10-13)** wedi cael eu harwain i raddau helaeth gan ein his-grŵp Buddsoddi mewn Ynni Adnewyddadwy, a bydd ei ganfyddiadau'n cael eu hystyried gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd dros yr haf. Mae'r broses Contract ar gyfer Gwahaniaeth ar gyfer yr arwerthiant nesaf yn cynnwys pot wedi'i neilltuo i brosiectau tonnau a llanw (argymhelliad 11b). Oherwydd y risg o gamau cyfreithiol gan yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn canolbwyntio ar rowndiau prydlesu gwely'r môr Ystad y Goron i sicrhau manteision cadwyn gyflenwi leol (argymhelliad 11a). Rydym yn dal i ystyried opsiynau i gefnogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy drwy'r system Ardrethi Annomestig ac rydym yn lledaenu arferion gorau o ran caffael a chefnogaeth barhaus i brosiectau drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru.

Mae'r argymhellion ynghylch **Ynni Cymunedol a Lleol (14-17)** i gyd yn symud ymlaen gyda nifer o uchafbwyntiau allweddol fel y nodir isod:

- Rydym wedi cyhoeddi ein [Canllawiau ar Ranberchnogaeth](#) fel teclyn pwysig i gymell ac i gefnogi datblygu ynni adnewyddadwy cymunedol sy'n eiddo i'r ardal leol.
- Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y bydd cyllid Ynni Cymunedol Cymru bedair gwaith yn fwy dros y 3 blynedd ariannol nesaf. Bydd adnoddau ychwanegol hefyd i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gefnogi ynni adnewyddadwy cymunedol.
- Sefydlwyd bwrdd dros dro y Datblygwr Ynni Adnewyddadwy, gan gynnwys penodi cyfarwyddwr anweithredol parhaol i gynrychioli buddiannau ynni cymunedol.

Rydym yn dal i symud ymlaen gyda'r argymhellion ynghylch **Gwerth Economaidd a Chymdeithasol (18-20)**. Rydym yn gweithio gyda gweithredwyr porthladdoedd yng Nghymru i asesu'r cyllid sydd ei angen i gefnogi seilwaith porthladdoedd a morol, ac rydym yn edrych ar ffynonellau posibl o gyllid gan gynnwys y rheini sydd ar gael gan lywodraeth y DU. Ni chafodd ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau Sero Net ei gyhoeddi yn unol â'r amserlenni gwreiddiol oherwydd prinder adnoddau. Fodd bynnag, disgwylir y caiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni ac mae swyddogion wrthi'n casglu tystiolaeth ar y waelodlin o ran y sgiliau sydd eu hangen i gyrraedd sero net. Bydd cynlluniau i glystyrau diwydiannol fabwysiadu ynni adnewyddadwy ar do a thir yn cael eu cefnogi gan [Diwydiant Cymru Sero Net](#) sydd newydd gael ei sefydlu fel rhan o allbynnau'r Cynllun Clwstwr.

Mae Grŵp Llywio Gweithredu'r Gwaith Ymchwil Manwl yn dal i ystyried, cynghori a rhoi gwybod i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ynghylch y cynnydd. Mae'r cyfarfodydd deufisol yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd cyffredinol, trafodaethau manwl ar feysydd polisi penodol a fforwm i herio ein dull gweithredu.

Er mwyn adrodd yn gyhoeddus ar weithredu argymhellion, byddwn yn cyhoeddi adolygiad llawn o'r cynnydd a'r cynllun gweithredu gyda cherrig milltir allweddol yn yr Hydref. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol bob chwe mis ar ôl hynny, ond byddwn yn parhau i adolygu'r amllder wrth i'r gweithredu fynd rhagddo.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i uchelgais y bydd Cymru yn dod yn allforiwr net ynni adnewyddadwy. Dylai bennu sut y bydd yn cyflawni'r uchelgais honno. Dylid datblygu targedau ynni adnewyddadwy mwy uchelgeisiol i danategu'r gwaith.

Ymateb: Derbynn

Mae gweledigaeth y Gwaith Ymchwil Manwl "...cynhyrchu ynni adnewyddadwy i ddiwallu ein hanghenion ynni yn llawn o leiaf..." yn cyd-fynd a'r ymrwymiad hwn.

Fel y nododd y Pwyllgor, mae Cymru Sero Net yn ein hymrwymo i ymgynghori ynghylch ein targedau ynni adnewyddadwy erbyn diwedd 2022. Rydym yn bwriadu cynnal gweithdy cwmpasu yn ystod haf 2022 a fydd yn gyfle i randdeiliaid allweddol weld tystiolaeth gynnar a chyflwyno tystiolaeth i gyfrannu at ein syniadau. Bydd adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r targedau yn rhoi rhagor o wybodaeth. Rydym yn disgwyl y bydd y dystiolaeth hon ar gael erbyn hydref 2022. Bydd proses ymgynghori lawn yn sicrhau bod y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddigon heriol a'u bod yn ystyried amrywiaeth o fanteision, risgiau a thensiynau – er enghraifft, bod tir ar gael i gyflawni yn erbyn nifer o ganlyniadau polisi.

Goblygiadau Ariannol: Cytunwyd eisoes o'r cyllidebau sy'n bod.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Cafodd adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gynnydd tuag at ei thargedau ynni adnewyddadwy ei gyhoeddi dros ddwy flynedd yn ôl. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad nesaf fel mater o flaenoriaeth.

Ymateb: Derbyn

Cafodd [adroddiad](#) diweddaraf Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, sy'n edrych ar y cynnydd yn 2020 at dargedau ynni adnewyddadwy Cymru, ei gyhoeddi ar 30 Mehefin 2022 ochr yn ochr ag Ail Argraffiad Defnyddio Ynni yng Nghymru. Bydd iteriad nesaf Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, sy'n edrych ar y cynnydd yn 2021, yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2022.

Goblygiadau Ariannol – Cytunwyd eisoes o'r cyllidebau sy'n bod.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl y camau y mae'n eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod gofynion seilwaith grid Cymru nawr ac yn y dyfodol yn cael eu bodloni. Dylai hefyd roi diweddariad ar ei Phrosiect Grid Ynni'r Dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan system ynni Prydain Fawr seilwaith priodol, ac mae'n dal yn gyfrifol am y drefn reoleiddio sy'n rheoli'r gridiau nwy a thrydan a mynediad at gyllid. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw'r drefn hon wedi diwallu anghenion Cymru a chyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Medi 2021 y camau rydym yn eu cymryd i sefydlu pa rwydweithiau sydd eu hangen ar Gymru yn y dyfodol.

Ym mis Rhagfyr 2021, penododd Llywodraeth Cymru y Catapwlt Systemau Ynni i gefnogi'r prosiect [Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru](#). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys yr holl gwmnïau sy'n berchen ar rwydweithiau ac yn gweithredu yng Nghymru ac Ofgem. Bydd yn datblygu senarios o'r gwahanol lwybrau y gallai Cymru eu dilyn i ddatgarboneiddio'r system ynni a bydd yn rhoi cipolwg ar oblygiadau'r senarios hyn i rwydweithiau'r grid yng Nghymru. Bydd yr allbwn yn gynllun gweithredu a fydd yn nodi camau gweithredu ar gyfer rhwydweithiau, Ofgem, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn gallu cynllunio a gweithredu'r rhwydwaith system gyfan yn y ffordd orau a hirdymor.

Fe wnaethom gynnal gweminar ar yr hyn sydd ar hyn o bryd yn ddarn technegol o waith ar 29 Mehefin gydag amrywiaeth eang o sefydliadau yn bresennol. Bydd cynnwys y weminar hon ar gael drwy wefan y Catapwlt Systemau Ynni. Byddwn yn parhau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith wrth inni gyrraedd cerrig milltir pwysig.

Goblygiadau Ariannol – Cytunwyd eisoes o'r cyllidebau sy'n bod.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac Ofgem i sicrhau:

- bod gofynion seilwaith grid Cymru nawr ac yn y dyfodol yn cael eu deall a'u bodloni'n llawn, a
- bod penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau cyfnod pontio cyfiawn.

Ymateb: Derbyn

Mae Gweinidogion wedi arwain trafodaethau gydag Ofgem am eu rôl o ran cydnabod a diwallu anghenion ein rhwydwaith, ac mae Cadeirydd GEMA, Bwrdd Ofgem, wedi ymgymryd â'r rôl o hyrwyddo buddiannau Cymru.

Rydym wedi gweithio gyda gweithredwyr rhwydwaith wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r problemau yng Nghymru ac yn bwriadu uwchraddio rhwydweithiau ar hyd a lled y wlad. Rydym yn craffu ar y ffordd mae Ofgem wedi ymateb i'r cynlluniau hyn a byddwn yn parhau i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng adeiladu seilwaith newydd a chadw'r effeithiau ar filiau mor isel â phosibl. Rydym yn parhau i herio Llywodraeth y DU i ailystyried sut mae costau datgarboneiddio'r system ynni yn cael eu cwrdd, yn enwedig o ystyried y cynnydd diweddar mewn costau ynni.

Bydd y Cynllun Gweithredu a gynhyrchir gan brosiect Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru yn nodi camau gweithredu ar gyfer rhwydweithiau, Ofgem, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a bydd yn sail ar gyfer gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Cytunwyd eisoes o'r cyllidebau sy'n bod.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru geisio trafodaethau ar frys ynghylch diffyg capasiti y grid yng Nghymru yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd. Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y trafodaethau hynny.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am y farn a ddaeth i'r amlwg o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin nad yw Llywodraeth y DU ar y cyfan yn ymwybodol o'r materion yng Nghymru ynghylch mynediad i'r grid. Roedd y

Gweinidog Newid Hinsawdd yn glir iawn yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor bod y materion y materion hyn wedi bodoli ers tro byd a'u bod yn rhwystr uniongyrchol i sicrhau sero net a ffyniant Cymru.

Yn dilyn hynny, manteisiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y cyfle i godi'r mater gyda Gweinidogion y DU mewn cyfarfod ar 29 Mehefin ynghylch y seilwaith grid ar y môr ac ar y tir sydd ei angen ar draws Prydain Fawr i gefnogi dyheadau cynyddol ynghylch ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gwynt ar y môr. Yn y cyfarfod, pwysleisiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd yr angen am seilwaith i wella cysylltedd yn y canolbarth a chefnogi datgarboneiddio mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â chefnogi cynhyrchu newydd. Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd fod yn rhaid ei reoli mewn ffordd sy'n dderbyniol i bobl a bod yn rhaid i gymunedau lleol gael budd amlwg a hawdd ei adnabod o'r seilwaith.

Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol yn drafodaeth bedairochrog gyda Gweinidogion o holl lywodraethau'r DU ac nid dyma'r fforwm mwyaf priodol ar gyfer sgysiau digon manwl am faterion sy'n benodol i Gymru. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ddefnyddio cyfarfodydd dwyochrog i drafod y mater hwn â Gweinidogion y DU a byddwn yn adrodd ar y cynnydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n bwriadu bwrw ymlaen â'i chynnig ar gyfer Pensaer System Ynni i Gymru a sut y bydd yn gwneud hynny, gan ystyried tystiolaeth Ofgem i'r Pwyllgor hwn

Ymateb: Derbyn

Mae hwn yn faes cymhleth, yn enwedig gyda nifer o fentrau perthnasol eisoes yn mynd rhagddynt, fel y cynnig i gael Gweithredwr Systemau'r Dyfodol yn deillio o'r Gweithredwr System Ynni presennol a'r trafodaethau parhaus ynghylch rolau cymharol y cyrff hyn a'r Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu a'r angen am Weithredwyr Systemau Dosbarthu dan arweiniad y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni. Roedd Ofgem hefyd wedi cyhoeddi [Cais am Dystiolaeth](#) yn ddiweddar ynghylch dyfodol systemau ynni lleol a llywodraethu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull grŵp bach o aelodau o'r Gwaith Ymchwil Manwl gydag arbenigedd yn y grid i egluro ac i ddatblygu'r cynnig ar gyfer Pensaer System Ynni i Gymru. Bydd y grŵp yn dadansoddi'r rhesymeg bosibl a'r nod ar gyfer Pensaer ac yn darparu'r diffiniad a'r amserlen i alluogi Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn. Bydd tystiolaeth Ofgem i'r Pwyllgor hwn yn sail i'r drafodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi allbwn y grŵp hwn a fydd yn sail i'r camau nesaf.

Goblygiadau Ariannol – Dim ar hyn o bryd

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol

Os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei huchelgais ar gyfer ynni adnewyddadwy, rhaid iddi sicrhau bod anghenion o ran adnoddau partneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, yn cael eu diwallu'n llawn. Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio opsiynau i sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio lleol yr holl adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau i fodloni'r galw nawr ac yn y dyfodol sy'n deillio o'r twf yn y sector ynni adnewyddadwy.

Ymateb: Derbyn

Roedd y Gwaith Ymchwil Manwl yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o dystiolaeth a chyngor cydsynio a chefnogi, er mwyn sicrhau proses amserol a chymesur. Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei gyflawni.

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac anstatudol o fewn ei amlen ariannu, gan gynnwys Cymorth Grant a'i drefn codi tâl. Rydym yn hybu gosod lefelau priodol o ffioedd ar gyfer y gweithgareddau rheoleiddio perthnasol a dyrannu ei Gymorth Grant i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Rydym wedi darparu adnoddau ychwanegol i ranbarthau i wneud gwaith cynllunio ynni lleol, a fydd yn darparu sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer cynlluniau datblygu lleol a rhanbarthol. Bydd y dystiolaeth yn rhoi gwell eglurder ynghylch y gofyniad am gapasiti i alluogi datblygiadau newydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu cynigion deddfwriaethol ar gyfer ei Bil Cydsynio Seilwaith Cymru, gan gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer cyflwyno'r Bil.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynigion deddfwriaethol ar gyfer ei Bil Cydsynio Seilwaith Cymru wrth i'r prosiect ddatblygu.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd i symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy y Môr Celtaidd fel y nodir yn argymhellion y gwaith ymchwil manwl.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi comisiynu adolygiad o un pen i'r llall o brosesau trwyddedu morol, cydsynio a chynghori cefnogol Cyfoeth Naturiol Cymru i gael gwared ar rwystrau, gan ddefnyddio gwaith y grwpiau presennol. Bydd y gwaith hwn yn darparu nifer o atebion i symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cwrdd ag Ystad y Goron i drafod eu gweithrediadau yng Nghymru, a'u bwriadau ynghylch y Môr Celtaidd. Rydym yn falch bod Ystad y Goron wedi tynnu sylw at yr ardaloedd sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer cyflwyno gwynt ar y môr sy'n arnofio yn y Môr Celtaidd cyn rownd 4, sy'n rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr. Ar ben hynny, mae'r arwydd bod gan y Môr Celtaidd potensial economaidd i ddarparu lle ar gyfer hyd at 20GW ychwanegol o gapasiti gwynt ar y môr sy'n arnofio erbyn 2045 yn gwella'r achos dros fuddsoddi yn ein porthladdoedd a'n cadwyni cyflenwi.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau gydag Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig y DU ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y broses Asesu Rheoliadau Cynefinoedd a amlinellir yn ei Strategaeth Diogelwch Ynni, a'r goblygiadau y gallai hyn eu cael i Gymru pe baem yn mabwysiadu'r un cynigion.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rhaid i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ranberchnogaeth nodi'n glir ei disgwyliad i ddatblygwyr masnachol gynnig ranberchnogaeth fel opsiwn ar gyfer pob prosiect newydd, gan gynnwys y rheini sydd yn yr arfaeth, ac ar gyfer datblygiadau presennol pan gânt eu hailbweru neu eu hymestyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi datganiad polisi clir ar ein cefnogaeth i ranberchenogaeth, gyda'r gofyniad y dylai pob datblygiad newydd gynnwys o leiaf elfen o berchnogaeth leol o 2020 ymlaen. Nid oeddem wedi rhoi ffigur ar y gyfran hon yn fwriadol: ar un llaw, gallai hyn gyfyngu ar y cyfleoedd am lefelau uchel o berchnogaeth leol mewn rhai achosion, ac ar y llaw arall rydym yn ymwybodol y gallai fod yn anoddach sicrhau cyfran fawr o berchnogaeth leol i rai prosiectau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau ar ranberchenogaeth ym mis Mehefin 2022. Mae'r canllawiau'n nodi ein disgwyliadau ar ddatblygwyr masnachol wrth ddatblygu datblygiadau adnewyddadwy newydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n defnyddio'r ysgogiadau sydd ganddi i annog a chymell rhanberchnogaeth.

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau ar ranberchenogaeth ym mis Mehefin 2022. Mae'r canllawiau hyn yn rhan o becyn cymorth i hybu a chymell rhanberchnogaeth ochr yn ochr â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a chyllid ar gyfer Ynni Cymunedol Cymru.

Rydym yn bwriadu monitro'r nifer sy'n manteisio ar ein dyheadau o ran rhanberchnogaeth a pherchnogaeth leol ar gyfer prosiectau ynni a chyhoeddi ein canfyddiadau yn adroddiadau Cynhyrchu Ynni yng Nghymru yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at astudiaethau achos sy'n dangos arferion da ac yn croesawu ein huchelgeisiau polisi.

Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gyflwyno dau gategori newydd o grant yn ein cynllun Grant Ynni Lleol i gefnogi rhanberchnogaeth a pherchnogaeth leol:

- grant adnoddau i gynyddu capasiti a gallu mewn mentrau ynni cymunedol;
- grant rhanberchenogaeth i gefnogi mentrau ynni cymunedol sy'n bwriadu buddsoddi mewn prosiect ynni adnewyddadwy sy'n cael ei ddatblygu'n fasnachol.

Dylai'r cymorth hwn helpu i ddatblygu gallu cymunedau i fod yn bartneriaid effeithiol mewn negodiadau gyda datblygwyr masnachol mawr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer cynllun busnes 3 blynedd Ynni Cymunedol Cymru (2022-25), a fydd yn ei alluogi i gynyddu'r cymorth ar gyfer ynni cymunedol a lleol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o gymorth i gymryd cyfran mewn datblygiadau masnachol ar ran cymunedau.

Goblygiadau Ariannol – Cytunwyd eisoes o'r cyllidebau sy'n bod.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar y defnydd o dir cyhoeddus (gan gynnwys tir sy'n eiddo i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ac egluro sut y mae'n gweithio gyda'r sector cyhoeddus i nodi safleoedd sy'n eiddo cyhoeddus sy'n addas ar gyfer prosiectau posibl.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy ar draws ystad coetiroedd Llywodraeth Cymru fel rhan o'n gwaith i ddatblygu datblygwr adnewyddadwy sy'n eiddo i'r cyhoedd. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith hwn fel rhan o'n diweddariad ar y datblygwr ynni adnewyddadwy.

Rydym hefyd yn adolygu ein tir a'n hasedau eraill ar gyfer potensial ynni adnewyddadwy i gefnogi ein hymrwymiad i gael Sector Cyhoeddus sero net erbyn 2030.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chyrrff cyhoeddus dros nifer o flynyddoedd i ddod o hyd i dir cyhoeddus addas ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy, ac mae nawr yn cefnogi sefydliadau i gyflwyno piblinell o brosiectau. Mae'r cyfleoedd o fewn ystadau'r awdurdodau lleol yn bennaf, gan mai nhw yw'r sefydliadau sy'n dal y mwyaf o dir.

Goblygiadau Ariannol – Dim hyd yma

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ystyried sut, os o gwbl, y gellir defnyddio'r ystad gyhoeddus yn well i gefnogi twf y sector ynni adnewyddadwy, gan gynnwys datblygiadau rhanberchnogaeth.

Ymateb: Derbyn

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi bod yn helpu cyrrff cyhoeddus i asesu'r potensial am ynni adnewyddadwy ar eu tir, yn enwedig lle gall ddiwallu anghenion lleol a lleihau costau ynni er mwyn rhyddhau cyllid i ddarparu gwasanaethau. Rydym hefyd wedi hybu cydweithio fel Egni Co-op sy'n gweithio gyda Chyngor Casnewydd ar gyflwyno to solar. Bydd sut y gallwn ddefnyddio'r ystad gyhoeddus yn fwy effeithiol yn cael ei ystyried wrth inni gyflwyno dull rhagweithiol o ymdrin ag anghenion ynni yn y dyfodol ym mhroses cynllunio ynni'r ardal leol yr ydym yn ei chefnogi ar lefel awdurdodau lleol.

Fel enghraifft o sut mae'r sector cyhoeddus yn cefnogi'r sector ynni adnewyddadwy yn well, mae hen safle tirlenwi yn gartref i fferm solar newydd 9MW Cyngor Dinas

Caerdydd. Mae'r trydan a gynhrychir gan y safle ar gyfartaledd yn cyfateb i oddeutu 20% o gyfanswm defnydd y Cyngor o drydan (gwaelodlin 2019-20). Mae'r rhan fwyaf o hyn yn cael ei gyflenwi drwy wifren uniongyrchol i helpu i ddatgarboneiddio'r galw am ynni yn y gwaith trin dŵr gwastraff lleol, ac mae'r ynni sydd dros ben yn cael ei werthu i'r National Grid.

At ei gilydd, amcangyfrifir y bydd y datblygiad hwn yn arbed tua 1,150 tonnell o CO2 bob blwyddyn ac yn rhoi budd net o dros £20m i'r cyngor dros oes y datblygiad, ar sail arbedion cost a'r incwm a gynhrychir.

Goblygiadau Ariannol – Cytunwyd eisoes o'r cyllidebau sy'n bod.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cefnogi a'u grymuso i sicrhau 'buddion cymunedol' o ddatblygiadau masnachol lle nad yw rhanberchnogaeth yn cael ei hystyried yn opsiwn ffafriol. Rhaid iddi hefyd nodi ei safbwynt ar orfodi lefel briodol ar gyfer Cronfeydd Budd Cymunedol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer cyflawni hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cymorth uniongyrchol i'n cymunedau lleol drwy ein trefniadau cyllido ar gyfer Ynni Cymunedol Cymru, sy'n helpu i rymuso cymunedau lleol i sicrhau manteision cymunedol derbyniol pan nad yw rhanberchnogaeth yn bosibl. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru hefyd yn cynghori cymunedau lleol ac arweinwyr prosiectau ar atebion i sicrhau'r manteision gorau posibl i'r gymuned leol.

Yn ein canllawiau ar berchnogaeth leol a rhanberchnogaeth o brosiectau ynni, nid ydym yn rhy ragnodol ynghylch y lefel briodol o Gronfeydd Budd Cymunedol gan ein bod yn croesawu dulliau creadigol ac arloesol o ddiwallu anghenion pob cymuned leol. Byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach wrth i brosiectau gael eu cyflwyno.

Rydym yn cydnabod bod gwahanol lefelau o fudd cymunedol yn peri risg o ran cystadleurwydd i ddatblygwyr sy'n bidio i Lywodraeth y DU am Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth. Mae'r bidio'n gystadleuol iawn ac, o ganlyniad, mae'n naturiol bod datblygwyr yn dueddol o gyfyngu ar eu manteision i'r gymuned er mwyn ennill contract. Felly, gallai fod yn briodol i Lywodraeth y DU bennu lefel sylfaenol ddisgwyliedig o fudd cymunedol ar gyfer pob prosiect sy'n gwneud cais am bob pot Contract ar gyfer Gwahaniaeth.

Goblygiadau Ariannol – Cytunwyd eisoes o'r cyllidebau sy'n bod.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer Ynni Cymru, gan gynnwys sut y bydd yn ategu gwaith y sector masnachol, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi prosiectau'r gymuned a'r sector cyhoeddus.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i weithio i sefydlu Ynni Cymru maes o law. Cwmpas yr ymrwymiad yw cefnogi cynnydd mewn ynni cymunedol a bwriedir iddo fod yn ychwanegol at y mecanweithiau darparu presennol.

Goblygiadau Ariannol – Dim hyd yma

Julie James AC

Y Gweinidog Newid Hinsawdd